# TGAU

3000N20-1A

A22-3000N20-1A

**DYDD GWENER, 11 TACHWEDD 2022 – BORE**

## CYMRAEG IAITH

**Uned 2**

**Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio**

2 awr

**DEUNYDD DARLLEN I'W DDEFNYDDIO GYDAG ADRAN A**


3000N201A
01

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**DARN DARLLEN 1**

**Miliwn o Siaradwyr: 2050**

**Siart 1: Nifer y siaradwyr Cymraeg 3 oed a throsodd, Cyfrifiad 2011, ynghyd â nod Llywodraeth Cymru erbyn 2050**



**Siart 2: Canran y bobl a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn awdurdodau lleol Cymru yn 2018**

| Awdurdod Lleol | 2018 |
|---|---|
| Abertawe | 29.9 |
| Blaenau Gwent | 22.8 |
| Bro Morgannwg | 19.8 |
| Caerdydd | 21.8 |
| Caerffili | 22.4 |
| Casnewydd | 21.7 |
| Castell-nedd Port Talbot | 22.5 |
| Ceredigion | 58.8 |
| Conwy | 42.0 |
| Gwynedd | 76.4 |
| Merthyr Tudful | 18.8 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 17.4 |
| Powys | 29.4 |
| Rhondda Cynon Taf | 22.2 |
| Penfro | 30.2 |
| Dinbych | 37.2 |
| Mynwy | 17.7 |
| Caerfyrddin | 51.5 |
| Fflint | 23.3 |
| Torfaen | 17.9 |
| Wrecsam | 27.4 |
| Ynys Môn | 64.5 |

3000N201A
03

ⓗ WJEC CBAC Cyf.



**Trowch y dudalen.**

**DARN DARLLEN 2**

# Pont Trefechan

Pont yn Aberystwyth, Ceredigion, yw Pont Trefechan ac mae Afon Rheidol yn llifo oddi tani.

## Protest Cymdeithas yr Iaith



Mae gan bont Trefechan le pwysig yn hanes yr ymgyrch i ennill statws i'r iaith Gymraeg yng Nghymru. Ar 2 Chwefror 1963 gwelwyd protestiadau torfol cyntaf Cymdeithas yr Iaith Gymraeg pan rwystrwyd y traffig ar Bont Trefechan gan fyfyrwyr o golegau Aberystwyth a Bangor yn bennaf. Roedd hyn flwyddyn wedi darlith Tynged yr Iaith gan Saunders Lewis a ddarlledwyd gan y BBC ar 13 Chwefror 1962. Dadleuodd Saunders Lewis fod angen ‘dulliau chwyldro’ er mwyn i’r Gymraeg fyw. Un o sgil effeithiau’r ddarlith oedd sefydlu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, a Phont Trefechan oedd safle’i phrotest gyntaf. Aeth y Gymdeithas yn ei blaen i gynnal ymgyrch dros roi statws cyfartal i’r Gymraeg, a hynny mewn sawl maes gwahanol, gan gynnwys arwyddion ffyrdd dwyieithog.


**DARN DARLLEN 3**

cymru fyw

Hafan | Cylchgrawn | Gwleidyddiaeth | Gog-Orll | Gog-Ddwy | Canolbarth | De-Orll | De-Ddwy

## Aberth Fawr Teulu'r Beasley

*Roedd Eileen a Trevor Beasley yn byw yn eu cartref yn Llangennech rhwng 1952 a 1964. Mae eu merch Delyth Prys yn rhannu ei hatgofion am frwydr ei rhieni a'i phrofiadau pan oedd yn blentyn.*



Tua 5 neu 6 oed oeddwn i pan aethon nhw â'r piano am y tro cyntaf. Roedd Mam wedi ein paratoi ni ymlaen llaw: roedd Cyngor Llanelli yn gwrthod rhoi bil treth Cymraeg i ni, ac felly roedden ni'n gwrthod talu. Os nad oedden nhw'n fodlon rhoi peth mor syml â phapur y dreth i ni'n Gymraeg doedd fawr o obaith i'r iaith. "Doedd e ddim yn biano da iawn beth bynnag," meddai Mam wedyn i 'nghysuro, a "fe gei di biano newydd gwell pan fyddwn ni wedi ennill".

Nod yr ymgyrch oedd gwneud safiad, a gwneud i bobl sylweddoli peth mor anhygoel o ryfedd heb sôn am anghyfiawn oedd gwrthod rhoi bil treth yn Gymraeg, mewn ardal lle roedd mwyafrif y bobl yn Gymry Cymraeg.

Wedi hynny fe aeth y *beilïaid â holl ddodrefn y parlwr. Fe aethon nhw â phopeth o'r ystafell fyw: y *3 piece suite*, y ddesg *roll top* a'r gadair swyddfa, y drych oedd yn hongian uwchben y lle tân, a hyd yn oed y carped. Roedd Mam yn berwi pan fu'r beilïaid mor ddigywilydd â gofyn iddi a oedd ganddi ddarn o linyn iddyn nhw glymu'r carped i'w gludo i ffwrdd!

Fe gafodd Mam gryn dipyn o drafferth i wagio'r ddesg, a oedd yn gist o drysorau, er mwyn iddyn nhw fynd â hi. Am ryw reswm, roedd y jam cartref hefyd wedi'i storio ar ben y ddesg, a'r unig beth oedd ar ôl yn y parlwr wedi i'r dynion fynd oedd deg pot o jam mwyar duon yn un rhes unig ar hyd y llawr. Roedd tipyn o ddifyrrwch, heb sôn am ryddhad efallai, pan fethodd y beilïaid â symud y cwpwrdd llyfrau tal o'r gegin fyw.

Roedd Mam wedi trefnu i 'mrawd a finnau fynd at ein hewyrth a'n modryb, gan ei bod hi'n credu bod gweld ein dodrefn yn cael eu gario i ffwrdd yn ein gwneud ni'n drist.

Ond doedden ni ddim yn drist heb ein dodrefn.

Doedd y rheiny wir ddim yn cyfrif rhyw lawer i blant. Dw i ddim yn cofio unrhyw ddathlu mawr y diwrnod y clywson ni ein bod wedi ennill y frwydr, a bod Cyngor Llanelli yn mynd i ddarparu papur y dreth yn ddwyieithog i bawb o hynny ymlaen.

Erbyn hyn mae fy nau ŵyr bach innau'n dechrau dysgu canu'r piano ac yn parablu llond pen o Gymraeg wrth wneud. Byddai Mam a Dad wedi bod yn hapus iawn i'w gweld.

*beilïaid – swyddogion sy'n casglu dyledion

**DARN DARLLEN 4**

# Greta:

## Gelyn y Gwrthamgylcheddwyr

***gan Lleucu Non, o Ddyffryn Nantlle***

Rydw i wedi clywed gan gymaint o oedolion ar y teledu, y cyfryngau cymdeithasol ac wyneb yn wyneb nad oes gan bobl ifanc ein hoedran ni ddiddordeb neu “ddim yn deall y petha’ ’ma”... Ond edrychwch ar beth mae Greta’n ei gynrychioli! NI sy’n protestio, NI sy’n gweiddi a NI sy’n gorfod newid y byd oherwydd camgymeriadau pobl farus ar draws y byd dros y ganrif ddiwethaf!

Ond lle cychwynnodd Greta Thunberg? Yn yr ysgol! Cyn iddi gychwyn blwyddyn academaidd arall, penderfynodd Greta beidio â mynd i’r ysgol ar 20 Awst 2018 tan yr etholiad cyffredinol yn Sweden ar 9 Medi. Dyma oedd ei phrotest bersonol yn sgil y tanau gwyllt yn ystod yr haf poethaf a welwyd yn Sweden ers canrifoedd! Protestiodd drwy eistedd o flaen y *Riksdag* (Llywodraeth Sweden) bob dydd am dair wythnos gyda’r arwydd yma – *Skolstrejk för klimatet* = Streic ysgol dros hinsawdd. Erbyn heddiw, mae miloedd ar filoedd o bobl ifanc yn cynnal diwrnod o streic yn wythnosol ar ddyddiau Gwener er mwyn sicrhau dyfodol gwell i ni bobl ifanc ac i’n daear ni! I Greta mae’r diolch am hyn.

Mae’r ferch 16 oed wedi derbyn cefnogaeth a chanmoliaeth gan enwogion fel Anne Hathaway a ddefnyddiodd yr hashnodau *#ImWithGreta #SchoolStrike4Climate* ar ei safle Twitter.

Felly, mae Greta wedi torri cwys wahanol ac wedi defnyddio ei llais i’n cynrychioli a dangos i’r byd ein bod yn ymwybodol o’r argyfwng mae’r blaned yn ei wynebu. Ond, mae hi hefyd wedi wynebu gwrthwynebiad gan bobl sydd wir yn wrthamgylcheddwyr. Defnyddiodd y cyn-Arlywydd Donald Trump ei gyfrif Twitter er mwyn ei bychanu hi. Ar ben hynny, bu’n rhaid i Newyddion Fox yn America ymddiheuro ar ôl i sylwadau sarhaus gael eu dweud am Greta gan ohebydd newyddion.

Fy neges i chi bobl ifanc ydy: Codwch eich llais! Peidiwch ag ofni mynd yn erbyn yr ystrydeb o “bobl ifanc ddim yn deall”! Mae Greta wedi agor drysau i nifer fawr ohonom ni i godi ein lleisiau. Yn anffodus, mae’n rhaid i ni dderbyn y baich a’r cyfrifoldeb er mwyn newid y byd ac mae’r chwyldro wedi cychwyn yn barod! Ymunwch â’r chwyldro dros hinsawdd!

**DARN DARLLEN 5**

**Malala: Mewn undeb mae nerth**

Cyfweliad gyda'r ymgyrchydd hawliau dynol Malala Yousafzai ar ôl iddi ennill gwobr heddwch Nobel.



**Beth mae ennill y wobr yn ei olygu i ti?**

Nid gwobr i mi yn unig yw hon. Mae'n wobr i'r plant sydd eisiau addysg, i'r plant ofnus sydd eisiau heddwch ac i'r plant di-lais sydd am weld newid yn eu gwlad. Dw i yma i sefyll dros eu hawliau. Mae ennill y wobr hon yn dangos i mi fod pobl yn dechrau gwrando, o'r diwedd.

**Beth yw dy atgofion di am dy gyfnod yn yr ysgol?**

Yn fy nghartref yng ngogledd Pakistan, roeddwn bob amser wrth fy modd yn yr ysgol yn dysgu pethau newydd. Roeddwn wrth fy modd gyda fformiwlâu a hafaliadau mathemategol ac roeddwn yn eu paentio ar hyd fy nwylo. Dw i'n cofio bod pawb yn y dosbarth yn mwynhau dysgu ac roedd hynny'n deimlad braf iawn. Dw i'n cofio pethau'n newid pan oeddwn yn ddeg oed. Dinistriwyd dros 400 o ysgolion ac roedd merched yn cael eu hatal rhag mynd i'r ysgol. Cafodd gwragedd eu chwipio a phobl ddiniwed eu lladd. Roeddem i gyd yn dioddef a throdd ein breuddwydion yn hunllefau. Aeth addysg o fod yn hawl i fod yn drosedd.

**Beth oedd dy ymateb di i'r newid hwn?**

Pan newidiodd fy myd yn sydyn, roedd gen i ddau ddewis. Y cyntaf oedd bod yn dawel ac aros i gael fy lladd a'r ail oedd codi llais ac yna cael fy lladd. Penderfynais godi llais a siarad. Ceisiodd terfysgwyr ein stopio, gan ymosod arnaf fi a fy ffrindiau yn Hydref 2012, ond ni lwyddodd eu bwledi. Ac ers y diwrnod hwnnw, mae ein lleisiau wedi cryfhau.

**Pam ei bod hi'n bwysig bod pobl yn clywed dy stori di?**

Dw i'n dweud fy stori nid am ei bod yn unigryw, ond am *nad* yw hi. Fi yw llais rhai o'r 66 miliwn o ferched nad ydynt mewn ysgol. Roedd un o fy ffrindiau ysgol yn ferch hyderus erioed ac yn breuddwydio am fod yn feddyg. Ond mae ei breuddwyd yn parhau i fod yn freuddwyd. Yn 12 oed, cafodd ei gorfodi i briodi ac yn fuan wedyn, cafodd fab. Byddai fy ffrind wedi bod yn feddyg da iawn. Ond ni allai... am ei bod yn ferch.

**Beth yw dy neges i arweinwyr dy wlad?**

Nid nawr yw'r amser i ddweud wrth yr arweinwyr pa mor bwysig yw addysg – nawr yw'r amser i alw arnynt i weithredu. Rydym yn gofyn i arweinwyr y byd uno a gwneud addysg yn brif flaenoriaeth. Pam mae gwledydd mor bwerus wrth greu rhyfeloedd, ond mor wan pan ddaw hi'n fater o greu heddwch? Pam mae rhoi gynnau mor hawdd, ond bod rhoi llyfrau mor anodd? Pam mae adeiladu tanciau'n hawdd, ond bod adeiladu ysgolion yn anodd? Nid neges i wleidyddion ac arweinwyr y byd yn unig yw hon, mae angen i ni i gyd gyfrannu. Fi. Chi. Mae'n ddyletswydd arnom.

TUDALEN WAG